Cofnodion cyfarfod 9fed o Fai 2023 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Eifion Williams	
Elenid Glyn	Iwan Huws	
Dafydd Huws	Cynog Prys	
Meleri Jones	Emyr Gareth	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cynghorydd Iwan Huws. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Llŷr Evans Eleri Wyn Thomas a Nel Huws. Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaethau trigolion o'r pentref yn ddiweddar, ac estynnwyd cydymdeimlad â theuluoedd, Mrs Suzanne West a Mr Alun Jones yn eu profedigaeth.	
1.1	Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd.	
1.2	Cyfraniad i'r Eglwys - dywedodd y Clerc ei bod wedi dod o hyd i reol yn datgan and oes gan y Cyngor Cymuned hawl i roi arian ar gyfer unrhyw enwad crefyddol. Penderfynwyd byddai'r arian sydd wedi bod yn cael ei roi yn flynyddol tuag at waith cynnal mynwent yr eglwys yn gallu cael ei roi yn uniongyrchol i'r grŵp PARCH sydd yn gwneud yr un Gwaith. Y Clerc i egluro'r sefyllfa i drysorydd yr Ardal Weinidogaeth Bro Peblig.	**CLERC**
1.3	Holiadur perfformiad Cyngor Gwynedd – y Clerc i ymateb ar ran y Cyngor.	
1.4	Cynllun Gwydnwch Safle bwyd Bendigedig – cyflwynwyd y cynllun i'r Cyngor, y Cynghorydd Daniel Williams i'w ddadansoddi ar ran y Cyngor. Nid oes copi Saesneg ar gael ar hyn o bryd.	
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
3.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
3.1	Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol y Cyngor am fis Ebrill 2023 gan y Clerc ac fe'u derbyniwyd.	**CLERC**
4.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	
4.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Ebrill 2023.	**CLERC**
4.2	Wi-Fi - dim ymateb wedi bod hyd yma oddi wrth Fenter Môn. Y Clerc a'r Cynghorydd Iwan Huws am barhau i drio cael ymateb.	
4.3	Llwybr 17 a Llwybr Cerrig yr afon – dim ymateb wedi bod oddi wrth y Swyddog Llwybrau Cyhoeddus Gwynedd a dim pris heb ei dderbyn. Y Clerc i anfon at y Swyddog eto. Dim ymateb wedi bod gan Asiant Cefnffyrdd ynglŷn â'r gwaith cynnal a chadw a hefyd dim ymateb wedi bod ynglŷn â dileu llwybrau sydd yn croesi'r ffordd osgoi.	
4.4	Cyfrifiad diffibrilwyr - derbyniwyd gwybodaeth bod ddim byd cadarnhaol wedi ei osod yn ei le ar gyfer cynnal yr offer o fewn y pentref ond credir bod bob safle i fod i edrych ar eu hôl yn ogystal â thalu costau'r trydan sydd ei	**CLERC ASEDAU**

	angen arnynt. Mae Clwb Peldroed a'r Neuadd (ynghyd a'r un ar y toiledau) yn cael eu cynnal gan y Clwb peldroed a'r neuadd ond nid ydym yn siŵr ynglŷn â'r un sydd yn yr Ysgol. Y Cynghorydd Iwan Huws am holi ar gyfer cael gwybod. Mae padiau ar gyfer rhai o dan ofal y Cyngor eu hangen.	
4.5	Llifogydd Afon Heulyn - cafwyd gwybodaeth bellach ar y mater gan y Cynghorydd Dan Williams ac Emyr Gareth. Mae'r mater o fewn y Faenol sydd ym Mhentir, er hynny mae'r mater yn cael effaith ar eiddo o fewn Y Felinheli. Y Clerc i gyfathrebu a Cyfoeth naturiol Cymru a hefyd Cyngor Cymuned Pentir.	**CLERC**
4.6	Datblygiad Penybryn - Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams bod dim angen gweld prydles y Cyngor Cymuned er mwyn gweld bod datblygiad Penybryn yn tarddu ar dir y Lon Las sydd o dan berchnogaeth Cyngor Gwynedd. Y Clerc i gysylltu â'r adran eiddo.	
4.7	Roedd y Cynghorydd Dan Williams yn ymwybodol nad oes ymgyrch hel sbwriel wedi bod ers tro o fewn y pentref a'i fod wedi addo trefnu achlysur ond yn anffodus wedi methu cael yr amser i wneud hyn. Roedd yn tybio byddai cael ymgyrch am ryw awr ar y Sul (4/6/2023) Pawb i ddewis ei ardal ei hun. Cyfarfod yn y Neuadd.	
4.8	Dim ymateb wedi bod oddi wrth Asiant Cefnffyrdd, Cyngor Gwynedd ond cydnabyddiaeth o dderbyn llythyr wedi dod gan Heddlu Gogledd Cymru gogyfer cael cynllun trefnu unffordd drwy'r pentref pan fydd y ffordd osgoi wedi ei chau.	
4.9	Cafwyd cydnabyddiaeth gan Priffyrdd i'r materion priffyrdd a amlygwyd i'r adran yn ddiweddar. Dywedwyd bydd Arolygydd y Ffordd yn edrych ar ddiffyg y gwli ochr ffordd Lan y Môr, a chaead offer BT ar ben Allt Pen Ceunant.	
5.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
5.1	Rhif Cais : C23/0324/20/DT Lleoliad : 7 Hen Gei Llechi, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4PA Bwriad: ffenestr domer gyda tho ongl i gefn yr eiddo. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.0	**CYLLID, CYFLOGAETH, PHOLISÏAU A GWEFAN**	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau. Bydd angen gweithio tuag at gael polisi bioamrywiaeth yn fuan.	
7.0	**ASEDAU**	
	Mae gwaith ar Safle Moreia wedi ei gwblhau ac mae'r safle yn edrych yn dda iawn. Y Cynghorydd Iwan Huws i gael cyfarfod ar y safle gyda'r contractwr ar gyfer cael cadarnhad bod y gwaith wedi ei gwblhau. Bydd hefyd yn trafod cynllun gwaith cynnal a chadw.	
8.0	**LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD**	
9.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
9.1	Cafwyd adroddiad llafar gan y Cynghorydd Daniel Williams. Roedd y Cynghorydd Cynog Prys wedi ymweld â gwaith gorffenedig y Piler. Cadarnhawyd bod pris y gwaith yn llai na'r amcan bris. Cytunwyd i dalu'r anfoneb.	**DW**

	Mae gwaith angenrheidiol ar y llawr, bydd angen oddeutu tridiau i wneud y gwaith. Amcan bris wedi ei dderbyn a chytunwyd ei fod yn rhesymol ac i'r gwaith fynd yn ei flaen. Mae sawl llechen yn rhydd ar do'r Neuadd a bydd angen pris ar gyfer y gwaith. Gobeithir trefnu Cyfarfod o'r Bwyllgor y neuadd ar y 24ain o Fai 2023.	
9.2	Cloc – cyfarfod heb ei drefnu gyda'r pensaer hyd yma.	
10.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Dim i'w adrodd	
11.0	**UNRHYW FATER ARALL**	
	Dim	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 08:30	
Llofnod:		**Dyddiad:** **13/6/2023**

Heather Lynne Jones